


Os hoffech chi gael y rhifyn hwn yn Saesneg, anfonwch e-bost at awttc@wales.nhs.uk

Newyddion AWTTC



Adroddiad Blynyddol AWMSG 2025 - 2026 yn amlygu cynnydd o ran mynediad at feddyginiaethau, diogelwch ac optimeiddio

Mae Grŵp Strategaeth Meddyginiaethau Cymru Gyfan (AWMSG) wedi cyhoeddi ei Adroddiad Blynyddol ar gyfer 2025–2026, gan dynnu sylw at gynnydd o ran gwella mynediad at feddyginiaethau, hyrwyddo rhagnodi mwy diogel a chefnogi canlyniadau iechyd gwell i gleifion ledled Cymru.

Gyda chefnogaeth Canolfan Therapiwteg a Thocsicoleg Cymru Gyfan (AWTTC), mae AWMSG yn darparu cyngor “unwaith i Gymru” sy'n seiliedig ar dystiolaeth i Lywodraeth Cymru a GIG Cymru, gan helpu pobl i gael mynediad at driniaethau sy'n briodol yn glinigol ac yn gost-efeithiol lle bynnag y maent yn byw yng Nghymru.



Cyflwyniadau Diwrnod Arfer Gorau 2026 ar gael

Daeth mwy na 160 o weithwyr gofal iechyd proffesiynol o bob cwr o Gymru ynghyd ar gyfer Diwrnod Arfer Gorau blynyddol AWTTC, ar 9 Gorffennaf, gan archwilio thema eleni: Optimeiddio Meddyginiaethau ar gyfer Dyfodol Cynaliadwy.

Mae'r adborth o'r digwyddiad wedi bod yn gadarnhaol dros ben. Disgrifiodd y cynrychiolwyr y siaradwyr a'r cyflwyniadau fel rhai rhagorol, ysbrydoledig, difyr a pherthnasol. Gwnaeth llawer o bobl dynnu sylw hefyd at werth rhwydweithio, cysylltu â chydweithwyr a thrafod syniadau, gan nodi cryfder dod â grŵp mor amrywiol a brwdfrydig o bobl ynghyd.

Mae recordiadau o'r cyflwyniadau, sleidiau o bob un o'r sesiynau grŵp a'r posteri buddugol bellach ar gael.

Yn ystod y flwyddyn, cymeradwywyd 76 o feddyginiaethau gan NICE neu AWMMSG, gan gefnogi mynediad amserol at driniaethau newydd ac effeithiol i gleifion ledled Cymru.

Darllenwch ragor yma

Darllenwch ragor yma



Cyfarfod PAPIG yn rhoi cleifion wrth wraidd gwybodaeth am feddyginiaethau

Rhoddodd cyfarfod diweddaraf y Grŵp Buddiannau Cleifion a'r Cyhoedd (PAPIG), a gynhaliwyd ar 17 Medi, gyfle i aelodau helpu i lunio sut mae gwybodaeth am feddyginiaethau'n cael ei datblygu a'i rhannu â phobl ledled Cymru.

Cymerodd yr aelodau ran hefyd mewn gweithdy rhyngweithiol a thrafodaeth dan arweiniad Tîm Mewnwelediadau Ymddygiadol Iechyd Cyhoeddus Cymru.

Roedd y cyfarfod hefyd yn nodi newid i PAPIG, gyda'r Cadeirydd Clare Elliott yn cyhoeddi ei bod yn camu i lawr o'r rôl ac yn trosglwyddo'r cyfrifoldeb i Karen Jobes, Uwch-Fferylllydd yn AWTTTC

Hoffai AWTTTC ddiolch i Clare am ei hymrwymiad a'i chyfraniad i PAPIG ac am yr amser y mae wedi'i roi i gadeirio'r grŵp ac annog ymgysylltiad cleifion.

Cymerwch ran yn PAPIG



Ymunwch â ni ar gyfer y sesiwn 'Dysgu yn ystod Cinio' nesaf

Bydd y sesiwn ar 15 Hydref yn dwyn ynghyd arbenigedd o bob rhan o GIG Cymru, gan gynnig mewnwelediadau ymarferol, diweddariadau ar adnoddau ar gyfer Cymru gyfan, a chyfleoedd i ddysgu am ddulliau a all gefnogi canlyniadau gwell i gleifion.

Mae'r sgysiau'n cynnwys:

- Mynd i'r Afael â Diffyg Maeth mewn Cymunedau gyda Dull Gofal Iechyd sy'n Seiliedig ar Werthoedd - Emma Catling, Arweinydd Strategol Diffyg Maeth
- Newyddion defnyddiol AWTTTC - Sabrina Rind – Uwch Fferylllydd AWTTTC
- Gabapentinoidau mewn Poen Cronig: Trosolwg o Adnoddau Cymru Gyfan - Shaila Ahmed, Uwch Fferylllydd AWTTTC
- Diweddariad therapiwteg cyflym - Tessa Lewis, Meddyg Teulu, Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan a Chynghorydd Meddygol, AWTTTC

Archebwch eich lle



Mae AWTTTC yn mynychu dathliad pen-blwydd 25ain SMC

Llongyfarchiadau i Gonsortiwm Meddyginiaethau'r Alban (SMC) ar 25 mlynedd o gefnogi'r asesiad a'r defnydd o feddyginiaethau ledled yr Alban.

Roedd AWTTTC wrth ei fodd yn ymuno â'r dathliadau yn Glasgow, gyda Chyfarwyddwr y Rhaglen Dr Andrew Champion, Pennaeth Mynediad Cleifion at Feddyginiaethau Tony Williams, a chyn Gyfarwyddwr Clinigol AWTTTC yr Athro Phil Routledge yn mynychu'r digwyddiad pen-blwydd.

Ymlaen at lawer mwy o flynyddoedd o gydweithio a chefnogi canlyniadau gwell i gleifion ledled y DU.




AWTTC yng Nghynhadledd PIPA

Mynychodd cydweithwyr AWTTTC, Claire Thomas, Pennaeth Uned Cymorth Presgripsiynu Dadansoddol Cymru (WAPSU) ac Optimeiddio Meddyginiaethau, a Dianne Burnett, Cyfarwyddwr Gwasanaeth Cyngor ar Feddyginiaethau Cymru (WMAS), y Gymdeithas Gwybodaeth Fferyllol a Gwylidwriaeth Ffarmacolegol (PIPA) ar 9 Medi lle cawsant eu gwahodd i gymryd rhan mewn trafodaeth banel ar 'Aiddychmygu aRMMs: Rhoi Cleifion wrth Wraidd y Broses o Gyfleu Risg'.

Archwiliodd y drafodaeth sut y dylid rhoi cleifion wrth wraidd y broses o gyfleu risg trwy gyfranogiad ystyrlon, hygyrchedd gwell, arloesedd digidol a chydweithio.



AWTTC yn cyfrannu at Symposiwm Therapiau Datblygedig Cymru



Adnoddau Gabapentinoid Cymru Gyfan wedi'u hamlygu ar gyfer Diwrnod Diogelwch Cleifion y Byd

Roedd AWTTC wrth eu bodd yn cymryd rhan yn Symposiwm blynyddol Therapiau Datblygedig Cymru ar 17 Medi, gan ddod ag ymchwilyr, clinigwyr, partneriaid diwydiant a llunwyr polisi ynghyd i archwilio dyfodol therapïau datblygedig..

Canolbwyntiodd symposiwm eleni ar 'Ehangu – Tyfu drwy gydweithio', gan dynnu sylw at sut y gall cydweithio ar draws y sector helpu i gyflymu arloesedd a gwella mynediad at driniaethau arloesol i gleifion.

Cyfrannodd Dr Stephanie Francis o AWTTC at y rhaglen, gan roi'r wybodaeth ddiweddaraf am Fapio Llwybrau Cenedlaethol a rhannu mewnwelediadau i'r gwaith sy'n cael ei wneud i helpu i ddatblygu a gweithredu therapïau datblygedig ledled Cymru.

Ar gyfer Diwrnod Diogelwch Cleifion y Byd ar 17 Medi, fe wnaethom amlygu ein hadnoddau ar gyfer rhagnodi diogel.

Mae Adnoddau Gabapentinoid Cymru Gyfan AWTTC ar gyfer Poen Cronig wedi'u datblygu i gefnogi gweithwyr gofal iechyd proffesiynol a chleifion i wneud penderfyniadau gwybodus ar y cyd am ddefnyddio gabapentin a pregabalin.

Mae'r pum pecyn adnoddau yn darparu offer ymarferol i gefnogi dull rhagnodi diogel a phriodol ar draws y llwybr triniaeth – o ystyried a chychwyn triniaeth hyd at adolygu, lleihau a stopio.

Mae'r adnoddau hefyd yn tynnu sylw at ystyriaethau diogelwch pwysig, gan gynnwys y risgiau o gamddefnyddio, dibyniaeth a rhyngweithiadau â meddyginiaethau eraill.

Darllenwch ragor yma



Mae AWTTC yn cysylltu â chydweithwyr fferylliaeth mewn cynhadledd yng Nghymru

Roedd AWTTC yn falch o fynychu Cynhadledd Fferylliaeth: Cyflawni Cymru Iachach 2026 y Coleg Brenhinol Fferylliaeth yng Ngwesty'r Parkgate yng Nghaerdydd ddydd Gwener 25 Medi. Daeth y gynhadledd â gweithwyr proffesiynol fferylliaeth a chydweithwyr o bob cwr o Gymru ynghyd i rannu syniadau, profiadau ac enghreifftiau o sut y gall fferylliaeth gyfrannu at Gymru iachach.

Roedd gan AWTTC stondin yn y digwyddiad, gan roi cyfle i arddangos ein gwaith a'n hadnoddau a siarad yn



Cyfeiriad e-bost newydd ar gyfer tîm Sganio'r Gorwel a Rhagolygon Ariannol AWTTC

Rydym wedi lansio blwch negeseuon e-bost pwrpasol i'w gwneud hi'n haws i gynrychiolwyr y diwydiant a rhanddeiliaid eraill gysylltu â'n tîm Sganio'r Gorwel a Rhagolygon Ariannol.

Mae UK PharmaScan yn parhau i fod yn brif ffynhonnell i ni ar gyfer gwybodaeth sganio'r gorwel. Rydym yn croesawu mewnwelediadau a gwybodaeth bellach gan rhanddeiliaid a allai helpu i lywio gweithgareddau sganio'r gorwel, cynllunio meddyginiaethau a pharatoadau ar gyfer gwasanaethau yng Nghymru.

uniongyrchol â mynychwyr y gynhadledd.

Denodd y stondin lawer o ddiddordeb drwy gydol y dydd, gyda sgysiau gwerthfawr am optimeiddio meddyginiaethau, mynediad at feddyginiaethau a'r gefnogaeth sydd ar gael i weithwyr gofal iechyd proffesiynol ar draws GIG Cymru.

Cysylltwch â ni a helpwch i gryfhau sganio'r gorwel a chynllunio meddyginiaethau'r dyfodol ledled Cymru.

HorizonScanning.AWTTC@wales.nhs.uk

Newyddion Gwasanaeth Mynediad Cleifion at Feddyginiaethau (PAMS)

Mae argymhelliad canlynol Grŵp Strategaeth Meddyginiaethau Cymru Gyfan (AWMSG) wedi'i gadarnhau gan Lywodraeth Cymru

Argymhellir Adrenalin (EURneffy®) fel opsiwn i'w ddefnyddio yn GIG Cymru ar gyfer triniaeth frys adweithiau alergaidd difrifol (anaffylaxis) yn sgil pigladau neu frathiadau pryfed, bwydydd, cynnyrch meddyginiaethol, ac alergenau eraill yn ogystal ag anaffylaxis idiopathig neu a achosir gan ymarfer corff. Rhoddir y driniaeth i oedolion a phlant sydd â phwysau corff ≥ 30 kg.

Atgoffir ragnodwyr i ymgynghori â chyngor Cymdeithas Alergedd ac Imiwnedd Glinigol Prydain (BSACI) ar ragnodi adrenalin brys hunan-weinyddol i bobl sydd mewn perygl o anaffylaxis.



Darllenwch ragor yma



Rhestr feddyginiaethau Blueteq GIG Cymru



Defnyddir system HCD Blueteq i awdurdodi'r defnydd o gyffuriau cost uchel a gymeradwywyd gan y Sefydliad Cenedlaethol dros Ragoriaeth mewn Iechyd a Gofal (NICE) a Grŵp Strategaeth Feddyginiaethau Cymru Gyfan (AWMSG) ar draws ystod gyfan o gyflyrau gofal iechyd.

Mae'r rhestr feddyginiaethau wedi'i diweddarau. Gallwch gael mynediad at y fersiwn ddiweddaraf o'r rhestr [yma](#).

Newyddion Uned Cymorth Presgripsiynu Dadansoddol Cymru (WAPSU)



Fersiynau diweddaraf o'adroddiadau ôl-troed carbon anadlyddion GIG Cymru' ac 'adroddiadau cyfnodau rhagnodi GIG Cymru' wedi'u cyhoeddi

Mae AWTTTC yn cynhyrchu adroddiadau misol sy'n darparu crynodeb byr o rai o'r metrigau allweddol a ddarperir o fewn dangosfyrddau SPIRA ar gyfer 'datgarboneiddio anadlyddion' a 'chyfnodau rhagnodi'.

Darllenwch ragor yma

Canllawiau gwrthficrobaidd gofal sylfaenol - diweddariad

Datblygwyd y canllaw hwn i roi cyngor cynhwysfawr ar reoli cyffuriau gwrthficrobaidd ar gyfer heintiau cyffredin mewn gofal sylfaenol, gan ystyried data rhagdueddiad pathogenau lleol a gwrthficrobaidd yng Nghymru.

Mae diweddariadau wedi'u gwneud i'r adrannau ar 'UTI isaf mewn oedolion', 'UTI isaf mewn beichiogrwydd' a 'Clefyd Crafu'. Cyfeiriwch at yr adran 'Diweddariadau' ar ddiwedd y ddogfen am fwy o fanylion.

Darllenwch ragor yma

Newyddion Uned Gwenwynau Cenedlaethol Cymru (WNPU)



Tocsicoleg Feddygol 2026

Bydd Uned Gwenwynau Genedlaethol Cymru (WNPU) yn cynnal eu cwrs Tocsicoleg Feddygol blynyddol yng Ngwesty'r Leonardo yng Nghaerdydd ar 9-10 Hydref 2026.

Mae'r digwyddiad ar gyfer gweithwyr iechyd proffesiynol sydd â diddordeb mewn dysgu mwy am docsicoleg feddygol.

Cliciwch ar y ddolen am ragor o wybodaeth a sut i gofrestru.

Darllenwch ragor yma

Newyddion Canolfan Melyn Cymru (CCM)

Diwrnod Diogelwch Cleifion y Byd

Bu tîm Canolfan Cerdyn Melyn Cymru yn nodi Diwrnod Diogelwch Cleifion y Byd (17 Medi) drwy gynnal stondin wybodaeth yn Ysbyty Athrofaol Cymru.

Siaradodd y tîm â chleifion, ymwelwyr a gweithwyr gofal iechyd proffesiynol am bwysigrwydd adrodd am sgil-ffeithiau a amheuir ac adweithiau niweidiol i feddyginiaethau drwy'r Cynllun Cerdyn Melyn.

Drwy roi gwybod am sgil-ffeithiau a amheuir, gall cleifion a gweithwyr gofal iechyd proffesiynol helpu i gryfhau diogelwch meddyginiaethau i bawb.

Dysgwch fwy am roi gwybod am sgil-ffeithiau a amheuir drwy'r Cynllun Cerdyn Melyn isod.


[Darllenwch ragor yma](#)



Dr Alison Thomas yn addysgu yn Niwrnod Astudio IMT Cymru Gyfan

Yn ddiweddar, cyfrannodd Cyfarwyddwr Meddygol YCC Cymru, Dr Alison Thomas, at Ddiwrnod Astudio Hyfforddiant Meddygaeth Fewnol (IMT) Cymru Gyfan, gan rannu ei harbenigedd gyda meddygon sy'n ymgymryd â hyfforddiant meddygol ôl-raddedig ledled Cymru.

Rhoddodd y diwrnod astudio gyfle i hyfforddeion ddatblygu eu gwybodaeth a'u sgiliau trwy addysg gan glinigwyr ac arbenigwyr profiadol.



Adroddiad Blynyddol Canolfan Cerdyn Melyn Cymru

Mae adroddiad blynyddol CCM Cymru yn dangos bod nifer yr adroddiadau Cerdyn Melyn ar gyfer adweithiau niweidiol a amheuir i feddyginiaethau a gyflwynwyd yng Nghymru wedi cynyddu 7% yn 2025/26.

Roedd sesiwn Dr Thomas yn gyfle i hyfforddeion ddysgu mwy am y Cynllun Cerdyn Melyn a'r rôl bwysig y mae'n ei chwarae wrth nodi a monitro sgil-ffeithiau a amheuir ac adweithiau niweidiol i feddyginiaethau.

Cyflwynwyd cyfanswm o 4,018 o adroddiadau yn ystod y flwyddyn, o'i gymharu â 3,757 yn 2024/25 ac am y tro cyntaf derbyniodd CCM Cymru ddata adrodd yn ymwneud â dyfeisiau meddygol hefyd.

Darllenwch ragor yma

Newyddion Gwasanaeth Cyngor ar Feddyginiaethau Cymru (GCFC)



Cyflwyniad WMAS yng Nghynhadledd Cymdeithas y Technegwyr Fferyllfa

Roedd yn anrhydedd i'n Rheolwr Cyngor ar Feddyginiaethau, Ollie Cummings, gael ei wahodd i siarad yng Nghynhadledd Flynyddol Cymdeithas Technegwyr Fferyllfa'r DU (APTUK) 2026, gan ymuno â chydweithwyr o Fryste a Plymouth i arddangos rolau Technegwyr Fferyllfa sy'n esblygu ac yn ehangu o fewn Gwasanaethau Cyngor ar Feddyginiaethau.

Tynnodd y cyflwyniad sylw at yr uwch rolau y mae Technegwyr Fferyllfa yn eu cyflawni o fewn gwasanaethau Cyngor ar Feddyginiaethau, gan ddangos yr arbenigedd, y sgiliau, y farn broffesiynol a'r effaith sylweddol maent yn eu cynnig yn y swyddi hyn, wrth barhau i ehangu cwmmpas ymarfer technegwyr fferyllfa.

Mae Gwasanaeth Cyngor ar Feddyginiaethau Cymru yn falch o gyflogi naw Technegydd Fferyllfa ledled Cymru ac yn parhau i arloesi modelau o ddarpariaeth gwasanaethau. Enghraifft o hyn yw trwy ei wasanaeth ateb ymholiadau dan arweiniad Technegydd Fferyllfa ar gyfer aelodau'r cyhoedd a gweithwyr gofal iechyd proffesiynol, gan



Templedi a chanllawiau Cyfarwyddiadau Grŵp Cleifion (PGDs)

Mae'r templedi Cyfarwyddyd Grŵp Cleifion (PGD) a Chyfarwyddyd Grŵp Brechlyn (VGD) canlynol wedi'u cymeradwyo a'u cyhoeddi i gefnogi Rhaglen Frechu COVID-19 Genedlaethol Hydref 2026 yng Nghymru:

Templedi VGD wedi'u diweddarau:

- Brechlyn COVID-19 5 oed a hŷn v2.0

Templedi VGD wedi'u diweddarau:

- Brechlyn mRNA COVID-19 6 mis i 4 blynedd v6.0

Yn ddilys o 1 Hydref 2026.

Wedi'i gyhoeddi nawr i gefnogi gyda mabwysiadu lleol, prosesau cymeradwyaeth llywodraethu a chyflwyno mewn sefydliadau GIG Cymru / gwasanaethau a gomisiynir.

Gallwch ddod o hyd i'r rhain a'n templedi PGD a VGD cenedlaethol eraill ar wefan WMAS.

sicrhau mynediad at wybodaeth a
chyngor am feddyginiaethau o ansawdd
uchel sy'n seiliedig ar dystiolaeth, wrth
gefnogi defnydd diogel ac effeithiol o
feddyginiaethau ledled Cymru.

Darllenwch ragor yma

Cofrestrwch i gael cylchlythyr AW TTC wedi'i anfon yn mewnflwch



[AWTTC](#) | [Cysylltu â ni](#) | [Polisi Preifatrwydd](#)

Wales NHS | The Routledge Academic Centre University Hospital Llandough Penlan Road | Penarth, CF64 2XX
GB

[Unsubscribe](#) | [Update Profile](#) | [Constant Contact Data Notice](#)



Try email marketing for free today!